

Bwrdd Iechyd Lleol Torfaen

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau Gofal
Iechyd Cymru
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Hydref 2007

Cynnwys

	Rhif Tudalen
1. Rhagarweiniad a Chyd-destun.....	1
2. Proses Asesu 2006-07	5
3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Torfaen	9
4. Canfyddiadau	
▪ Profiad y Claf	11
▪ Canlyniadau Clinigol.....	21
▪ Llywodraeth Gofal Iechyd	25
▪ Iechyd y Cyhoedd.....	43
5. Camau Nesaf	47
Atodiadau	
Atodiad 1: Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd	49
Atodiad 2: Crynodeb o lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safonau	51
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr	59
Atodiad 4: Rhestr Termau.....	63

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Torfaen o berfformiad yn 2006-2007 yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn cyflwyno fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin i gynorthwyo'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, ac yn bennaf, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i ddarparu'r lefelau gofal a thriniaeth gwell y mae gan bobl Cymru hawl i'w disgwyl yn rhesymol ac felly darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd i Gymru'n* nodi 32 o safonau mewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

¹ Diffinir sefydliadau gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, yn cynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

- Mae'r maes cyntaf 'Profiad y Claf' yn nodi:

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil wedi'i asesu'n briodol, yn nodi sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

Y bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5 O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol o sut y maent wedi perfformio.

1.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiadau a'u hunanasesiadau'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o

gydgysylltu profi a dilysu canlyniadau, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn yr adran ganlynol.

1.7 O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfiad â'r safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Mae 2006-2007 wedi bod yn flwyddyn o ddatblygiad a datblygwyd a phrofwyd proses newydd o asesiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r pwyslais wedi bod ar **Ddatblygu** proses asesu sy'n gosod cyfrifoldeb yn bendant ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd am gydymffurfiaid â'r *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ac sy'n cefnogi'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac yn bwysicach y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae'r Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiaid â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiaid yn cael ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*² – sut brofiad mae'r defnyddiwr yn ei gael ac a yw hyn yn gwella?

2.3. Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd fel dull asesu ar y we sy'n galluogi i hunanasesiadau gael eu cwblhau ar-lein a thystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd i bob cwestiwn i gael ei lanlwytho. Ategir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n darparu cyfarwyddyd defnyddiol ar ofynion bob un o'r 32 safon.

2.4. Mae wedi bod yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn bob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu

² Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofaluwr a staff.

ar y lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr fel bod ar un o bum lefel o aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Mae diffiniadau o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

2.5. Gan y bu hon yn flwyddyn o ddatblygiad, mae sefydliadau'r GIG wedi gorfod bodloni rhai terfynau amser tyn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno hunanasesiad i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, tri mis ar ôl i'r dull asesu gael ei ryddhau. Bodlonwyd y terfyn amser gan BILI Torfaen a hoffem gydnabod y llwyth gwaith aruthrol, ymdrech ac ymroddiad a ddangoswyd gan BILI Torfaen i sicrhau y bodlonwyd y terfynau amser

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan BILI Torfaen, ac mae hyn wedi cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* - Dilysiad pen bwrdd o'r hunanasesiad gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi pa un a oedd y cwestiynau oedd yn ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi pa un a oedd yr ateb wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cydfynd â'r marc aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli trwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol i sicrhau bod y marcio yn gyson ac wedi'u safoni.
- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau ar brofiad y claf/y defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7 Roedd yr ymweliad safle'n un cam o'r broses o ddilysu a phrofi hunanasesiad BILI Torfaen a gyflwynwyd, ac fel y nodwyd uchod, roeddent yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 3 Medi 2007 ac fe wnaethom hwyluso grwpiau cleifion a staff.

2.8 Hefyd, cynhaliwyd archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, hyfforddiant a gwerthuso ar staff ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9 Ym mis Awst, cyd-gysylltwyd a hwyluswyd tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu i'r broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu mwy o wybodaeth ledled sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrhau ar y cyd.

3. Trosolwg o BILI Torfaen

3.1 Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Torfaen fel corff statudol ar 1 Ebrill 2003. Prif swyddogaeth Bwrdd Iechyd Lleol yw gweithredu strategaethau i wella iechyd eu poblogaeth drwy ymgymryd â gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, mudiadau o'r sector gwirfoddol a chymunedau lleol.

3.2 Mae Byrddau Iechyd Lleol yn ymwneud â dau fath o bartneriaethau lleol ffurfiol:

- llunio a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles gyda'r Awdurdod Lleol ac mewn ymgynghoriad â phartneriaid allweddol eraill,
- comisiynu gwasanaethau lleol. Roedd gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaethau gofal iechyd cychwynnol, cymunedol ac eilaidd gan ddarparwyr GIG a chomisiynu gwasanaethau gan a chyda'r Awdurdod Lleol.

3.3 Wrth weithredu strategaethau a chomisiynu gwasanaethau mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol ran bwysig mewn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth ac mewn sicrhau bod gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu'n ddiogel ac effeithiol. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd sicrhau bod iechyd cymunedau yn gwella a bod anghydraddoldeb iechyd a lles yn cael eu gostwng.

Canfyddiadau - Yn cynnwys Meysydd Gwelliant ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1 Asesodd y BILI ei hun fel un sy'n **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S1.2 Cyflwynodd y BILI Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd gynhwysfawr iawn a rhoddodd lawer o enghreifftiau o'i gweithrediad llwyddiannus. Rhoddwyd tystiolaeth hefyd fod barn rhanddeiliaid yn cael ei ystyried drwy wahanol grwpiau cynllunio aml-asiantaethol. Mae penodi Cyd-gyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig yn allweddol i sicrhau agweddau integredig tuag at iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

S1.3 Mae'r Adroddiad Profiad Cleifion yn dangos sut y ceisir barn defnyddwyr, y pynciau a nodir a'r camau gweithredu a gymerir. Mae tystiolaeth o sut mae'r Bwrdd yn galluogi ei staff i gyfathrebu â gwahanol gynulleidfaoedd ond ni roddodd y BILI dystiolaeth o sut mae staff yn dylanwadu ar y broses o gasglu barn. Ceir ymrwymiad effeithiol i agwedd aml-asiantaethol tuag at ymdrin â materion ar draws y rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol.

S1.4 Darparodd y BILI restr gynhwysfawr o'r dulliau a ddefnyddir i gasglu barn cleifion, yn cynnwys dadansoddiad o amrywiaeth. Mae'r drefn Monitro Iechyd Meddwl Oedolion o dan arweiniad defnyddwyr yn enghraifft o arfer da. Gwnaed nifer o newidiadau o ganlyniad i gasglu barn rhanddeiliaid ac amlygwyd y rhain yng nghyflwyniad y BILI. Ar ben hynny, roedd y BILI yn gallu dangos effeithiolrwydd y cydweithrediad rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y fwrdeistref.

S1.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a) yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth*
- b) yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c) yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac yn*
- d) sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S2.2 Mae'r dystiolaeth yn rhoi enghreifftiau da o sut mae'r BILI yn dadansoddi gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion iechyd lleol o ran y Strategaeth HSC&WB. Er enghraifft, ym maes Iechyd Meddwl a phlant ag anableddau. Mae prosesau yn eu lle i reoli a chyfateb anghenion lleol â safonau a pholisïau cenedlaethol. Fodd bynnag, dystiolaeth gyfyngedig sydd fod y rhain yn cael eu monitro. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am dargedau derbyniadau heb fod yn rhai mewn argyfwng, ond ni chyflwynwyd yr adroddiadau hyn fel dystiolaeth.

S2.3 Cafwyd enghreifftiau o sut mae'r BILI yn cynllunio a chyflwyno anghenion iechyd lleol. Er enghraifft, drwy'r rhaglen waith Plant ag Anableddau. Mae llawer yn cael ei wneud i fonitro cydymffurfiaeth a pherfformiad mewn gofal sylfaenol. Mae angen i'r BILI sefydlu hyn gyda'r contractwyr. Mae Is-bwyllgor Perfformiad a'r Pwyllgor Gwelliant yn monitro targedau derbyniadau nad ydynt yn rhai mewn argyfwng.

S2.4 Mae'r BILI yn defnyddio'r Archwiliad Mynediad ac arfau monitro eraill i sicrhau bod gan gleifion fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae gwybodaeth am safonau cenedlaethol yn cael ei rhoi i gleifion ar lafar ac mae'r Bwrdd yn ymwybodol fod angen iddo ddatblygu dogfennau ysgrifenedig ar gyfer cleifion. Mae'r BILI yn dibynnu ar yr Ymddiriedolaeth sy'n darparu i roi gwybodaeth am amseroedd aros i gleifion.

S2.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI, sef **Datblygol** ar gyfer y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Fodd bynnag, ar lefel Profiad

Defnyddwyr, rydym yn ystyried bod y BILI yn **Ymatebol** gan na roddwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod dulliau wedi cael eu rhoi yn eu lle i ymdrin yn benodol â sut mae cleifion yn cael eu hysbysu o amseroedd aros a'r dewisiadau sydd ganddynt er mwyn cael gafael ar wasanaethau.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S3.2 Mae adroddiad y Bwrdd yn nodi perfformiad yn erbyn targedau brys cenedlaethol, ond dystiolaeth gyfyngedig sydd, fodd bynnag, o sut y mae'r rhain yn cael eu gwerthuso.

S3.3 Mae Grŵp Effeithlonrwydd Gwasanaeth a Gwelliant yn nodi a thargedu meysydd penodol nad ydynt yn perfformio. Nid yw'r dystiolaeth yn crybwyll sut mae'r Adroddiadau Gweithgaredd a'r Adroddiadau Cerdyn Sgorio Cytbwys yn cael eu cyfathrebu i staff.

S3.4 Dywedodd cleifion y buom yn siarad â hwy nad oeddynt eisiau derbyn gwybodaeth ar ffurf electronig yn unig.

S3.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI, sef **Datblygol**, ar gyfer y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Roedd ymateb y BILI i sut mae cleifion yn cael eu hysbysu o berfformiad yn erbyn targedau brys cenedlaethol, amseroedd aros a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt er mwy asesu gwasanaethau wedi'i gyfyngu i adroddiadau bwrdd ffurfiol a gwybodaeth a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth neu Feddygon Teulu. O ystyried absenoldeb dewisiadau ar gyfer hysbysu cleifion, rydym yn ystyried y BILI i fod yn **Ymatebol**.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a) yn hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b) yn parhau anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c) yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; a*
- d) yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a **Datblygol** ar gyfer Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S4.2 Mae'r BILI wedi sefydlu Bwrdd Strategaeth Stadau sy'n gweithredu'r Strategaeth Gwasanaeth Integredig a Stadau. Cynhaliwyd arolwg o'r holl ddarparwyr gofal sylfaenol a rhannwyd y canfyddiadau gyda chontractwyr er mwyn iddynt allu ymdrin â materion heb eu cwblhau. Mae'r BILI hefyd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad am y Rhaglen Dyfodol Clinigol gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwent. Mae ystod eang o wybodaeth a thystiolaeth am y BILI yn sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd yn bodloni gofynion statudol. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau'r BILI ei hun a chontractwyr gofal sylfaenol. Mae prosesau clir yn eu lle i sicrhau bod risgiau a pheryglon yn cael eu rheoli. Mae'r Bwrdd wedi diffinio ei gyfrifoldeb ac atebolrwydd am y gofynion diogelwch cyfredol ond mae angen i'r BILI nodi'r llinellau atebolrwydd ar gyfer materion diogelwch.

S4.3 Mae angen i'r BILI roi tystiolaeth o sut mae staff yn dylanwadu ar ddyluniad amgylcheddau gofal iechyd, mewn gofal sylfaenol, yn ogystal â gofal eilaidd. Mae systemau yn eu lle i alluogi staff i godi materion ac i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r cofnodion risg yn rhoi manylion ymrwymiad y Bwrdd i gydymffurfio ag iechyd a diogelwch.

S4.4 Mae tystiolaeth yn dangos fod gan ddefnyddwyr gyfle i fynegi eu barn am y gwahanol amgylcheddau gofal iechyd a rhoddwyd rhai enghreifftiau da o sut y gwnaed newidiadau o ganlyniad i fewnbwn cleifion. Mae angen i'r BILI roi enghreifftiau o sut mae cleifion yn cael eu hysbysu o ofynion diogelwch. Mae angen i'r BILI sicrhau y rhoddir adroddiad llawn am bob digwyddiad.

S4.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI, sef ei fod yn **Ymarfer** ar gyfer y lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar gyfer lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd:

- a) yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b) yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; a*
- c) yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S5.2 Nid yw'r BILI wedi darparu tystiolaeth o gyfeiriad strategol ar gyfer y safon hon. Mae systemau yn eu lle i sicrhau'r Bwrdd fod amgylcheddau gofal iechyd yn cael eu cynnal yn Ymddiriedolaeth GIG Gwent. Fodd bynnag, rhaid rhoi ystyriaeth i wasanaethau meddygol a deintyddol cychwynnol hefyd. Ychydig o dystiolaeth sydd fod y Bwrdd yn monitro'r nifer o heintiau sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn gofal eilaidd.

S5.3 Mae gan y BILI Strategaeth Gwasanaethau Integredig a Strategaeth Stadau sydd yn dangos fod materion eiddo wedi cael eu hystyried ond nid yw'r BILI wedi darparu tystiolaeth o'r camau a gymerwyd. O'r dystiolaeth, nid yw'n ymddangos fod lleoliadau gofal sylfaenol yn cael eu monitro ac y rhoddir adroddiad yn rheolaidd. Cymerir camau drwy'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ond mae'r BILI angen dangos tystiolaeth o ba staff sydd â chyfrifoldeb am adolygu rhoi adroddiad am faterion fel rheoli haint. Felly, rydym yn cytuno fod y BILI yn **Ddatblygol** ar lefel Canlyniad Gweithredol/Clinigol.

S5.4 Ni roddodd y BILI unrhyw dystiolaeth fod camau gweithredol yn digwydd am bryderon yn ymwneud â materion cynnal. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r trefniadau adrodd rhwng y gwasanaeth a'r BILI yn ddigon trwyadl. Mae rhestr o ddulliau y gall cleifion a gofalwyr leisio eu barn drwyddynt. Mae'r angen i'r BILI

dangos tystiolaeth o sut mae am eu galluogi i weithredu a herio staff mewn perthynas â heintiau perthynol i ofal iechyd.

S5.5 Nid oedd y BILI yn gallu dangos fod amgylcheddau yn cael eu cynnal yn dda, bod safonau glanweithdra yn cael eu cynnal a bod cyfraddau rheoli heintiau yn cael eu monitro. Felly, rydym yn ystyried fod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad Defnyddwyr.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a) *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b) *yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod a chytuno ar ddewisiadau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad Defnyddwyr ac mae wedi dyfarnu ei hun yn **Ymarfer** ar gyfer y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S6.2 Mae'r Bwrdd wedi gwneud cryn ymdrech i adnabod gwahanol anghenion iaith, cyfathrebu, anghenion corfforol a diwylliannol defnyddwyr gwasanaeth. Mae gan y BILI Weithgor Cleifion a'r Cyhoedd sy'n adolygu ymwneud â'r cyhoedd. Mae'n glir bod gwybodaeth am gyflyrau, gofal a thriniaeth ar gael ac yn hygyrch i bob defnyddiwr. Mae'r Bwrdd wedi cyflwyno nifer o fentrau i alluogi cleifion a defnyddwyr i drafod a chytuno ar eu hanghenion gofal. Mae'r rhain yn briodol i fodloni gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol ac iechyd meddwl cleifion a defnyddwyr eraill.

S6.3 Mae gan y BILI ystod dda o systemau a gweithdrefnau yn eu lle i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r BILI wedi dangos eu bod wedi cael eu gwerthuso a bod cynlluniau yn bodoli i'w gwella ymhellach. Mae'r BILI yn darparu hyfforddiant drwy gynllun datblygu staff drwy ystod o offerynnau i gefnogi cleifion i wneud penderfyniadau. Mae angen i'r BILI roi tystiolaeth o ddefnydd yr hyfforddiant hwn.

S6.4 Mae prosesau yn eu lle i'r BILI fonitro bod yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael gafael ar wybodaeth am wasanaethau. Dywedodd cleifion wrthym nad oeddynt yn gwybod beth oedd y BILI yn ei wneud a byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth amdano, er nad ar ffurf electronig yn unig. Roedd y BILI yn gallu dangos bod cyfleoedd i gleifion i drafod eu hanghenion a chytuno ar eu gofal. Mewn gofal sylfaenol, mae'r Bwrdd yn monitro sut mae'r Rhaglen Cleifion Arbenigol yn cael ei marchnata i gleifion.

S6.5 Ar sail y cyflwyniad hunanasesu, tystiolaeth ac arfer da a ddarparwyd, rydym yn ystyried y BILI i fod yn **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a chytuno fod y BILI yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S7.2 Mae'r BILI yn ymrwymedig i sicrhau bod cleifion yn cael eu hymrymuso. Mae'r ymateb yn rhestru nifer o fentrau sy'n cynnwys cleifion yn eu rhaglenni gofal a thriniaeth eu hunain. Darperir tystiolaeth o ystod o adnoddau ac mae'r Rhaglen Cleifion Arbenigol (EPP) leol yn ymddangos yn un dda. Mae angen i'r BILI dangos tystiolaeth ei fod yn monitro canlyniadau'r rhaglenni hyn.

S7.3 Mae ystod o gyfleoedd hyfforddi ar gael i staff y BILI, gofal sylfaenol a staff y sector annibynnol i'w helpu i fodloni anghenion eu cleifion. Mae holl safonau hunan reoli yn cael eu darparu yn unol â safonau cenedlaethol ac ymddengys fod cleifion yn cael eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb am eu gofal eu hunain. Mae'r cwrs EPP wedi datblygu i ddarparu cwrs ar gyfer gofalwyr.

S7.4 Ceir enghreifftiau da o'r BILI yn gweithio ac yn ymrymuso cleifion i wneud penderfyniadau am eu cynlluniau gofal eu hunain. Mae'r BILI wedi dyfeisio offeryn Archwilio Bodlonrwydd Profiad Cleifion i fonitro effeithiolrwydd y rhaglenni. Mae'r

EPP a chynlluniau eraill yn cael eu gwerthuso i sicrhau bod hunanreolaeth cleifion o'u gofal yn effeithiol.

S7.5 Mae angen mwy o dystiolaeth o welliant parhaus a meincnodi ac felly rydym yn ystyried fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Fodd bynnag, roedd y BILI yn gallu dangos fod Profiad Defnyddwyr yn dda yn gyffredinol ac felly rydym yn cytuno ag asesiad y BILI, sef **Yn Ymarfer**.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a) *bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b) *bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c) *yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- d) *bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1 Roedd y Bwrdd wedi asesu ei hun fel bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

S8.2 Mae'r BILI yn amlwg yn cymryd materion urddas a pharch o ddifrif ond mae angen iddo ddangos mwy o dystiolaeth o gydymffurfiaeth mewn lleoliadau gofal sylfaenol. Mae ystod o bolisiau a gweithdrefnau yn eu lle i fodloni gofynion cyfreithiol a bodloni anghenion staff. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth i bolisiau rhyw a chydaddoldeb hefyd ac i drafod sut y mae'r Bwrdd yn monitro a gwerthuso'r polisiau, yn enwedig yn y sector gofal sylfaenol a'r sector preifat.

S8.3 Mae'r hyfforddiant sydd ar gael i staff yn bodloni gofynion y safon yn dda, ond mae angen i'r BILI gynhyrchu tystiolaeth o gyfranogaeth gofal sylfaenol. Mae cynllun gweithredu'r arolwg staff yn dangos pa mor effeithiol y ceisiwyd barn staff ac y gweithredwyd ar hynny wedyn. Mae tystiolaeth o hyfforddiant sydd ar gael i staff am ddeddfwriaeth ganiatâd cleifion ac arfer da. Fodd bynnag, ni chyflwynir graddfeydd derbyn yr hyfforddiant. Mae cynllun gwella'r BILI yn dangos nad yw rheolaeth

cofnodion cleifion wedi'u sefydlu'n gadarn ac nid oes prosesau yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth. Mae hyfforddiant staff o ran adroddiad Caldicott yn ymddangos yn wirfoddol ac mae'n ymddangos bod amheuaeth am weithrediad trefniadau Caldicott mewn gofal sylfaenol.

S8.4 Mae tystiolaeth o welliannau yn digwydd oherwydd sylwadau gan ddefnyddwyr a gofaluwr. Fodd bynnag, mae angen i'r BILI lunio dull o fonitro perfformiad yn erbyn y safon hon mewn cartrefi nyrsio. Ni roddodd y BILI dystiolaeth ei fod yn monitro'r broses caniatâd yn effeithiol ac mae angen rhoi tystiolaeth o fonitro'r polisi rhannu gwybodaeth.

S8.5 Ar sail yr hunanasesiad a gyflwynodd y BILI, ni roddwyd fawr o dystiolaeth a oedd yn dangos cyfranogiad gofal sylfaenol, felly rydym wedi asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a) bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau diet cytbwys; a*
- b) bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran diet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S9.2 Fel y mwyafrif o BILI, roedd ymateb Torfaen yn dangos fod y safon hon yn berthnasol i sefydliadau darparwyr yn unig. Fel Arolygiaeth Gofal Iechyd mae ateb o'r fath yn ein pryderu gan y dylai comisiynwyr fod yn sicrhau bod sefydliadau darparwyr o bob math wedi sefydlu'r systemau a'r prosesau i sicrhau bod gofynion y safon yn cael eu bodloni. Dylai BILI fod yn monitro hyn fel rhan o'u cyfrifoldebau comisiynu.

S9.3 Rydym yn ystyried bod y BILI yn **Ymwybodol** ar bob lefel.

Safon 10

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1 Mae'r BILI wedi'i hunanasesu fel bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad Defnyddwyr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S10.2 Mae'r BILI wedi derbyn clod gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hil oherwydd y cynnydd y mae'n ei wneud mewn perthynas â chydraddoldeb hil. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y BILI yn dangos y pwysigrwydd y mae'n ei osod ar feysydd cydraddoldeb anabledd, rhyw a hil yn glir. Mae staff yn cymryd rhan mewn datblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau i ymdrin â phob maes cydraddoldeb.

S10.3 Mae'r BILI wedi nodi cefndir ethnig ei staff ac mae'n rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth iddynt yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Fodd bynnag, mae angen i'r BILI werthuso asesiadau effaith cydraddoldeb i'w cyflwyno yn y dyfodol.

S10.4 Rhoddodd y BILI enghreifftiau o ddatblygiadau a wnaed mewn gwasanaethau i fodloni anghenion cleifion penodol. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun rhoi meddyginiaeth lle mae oedolion agored i niwed wedi cael eu cynorthwyo i aros yn eu cartrefi eu hunain oherwydd bod gofalywyr wedi cael eu hyfforddi i roi meddyginiaeth iddynt. Mae'r EPP yn targedu gofalywyr, pobl â nam ar eu golwg a phobl â phroblemau iechyd meddwl yn weithredol.

S10.5 Rydym yn cytuno fod y BILI yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad Defnyddwyr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a) *bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b) *y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;*
- c) *bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a*
- d) *bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S11.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S11.2 Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb i unigolion yn y BILI i sicrhau bod yr arfer gorau yn cael ei weithredu. Mae'r rhaglen archwilio clinigol yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol (CG). Mae'r holl staff proffesiynol yn rhoi tystiolaeth o'u cofrestriad gyda'r corff proffesiynol priodol a chedwir hyn ar ffeil. Mae angen i'r Bwrdd ddangos arweiniad mwy strategol yn y safon hon, er enghraifft, drwy gymeradwyo Strategaeth Archwiliad Clinigol.

S11.3 Mae archwiliadau meddygol a fferyllol wedi cael eu hamserlennu. Mae'n rhaid i wasanaethau meddygol contractwyr ddarparu arfarniadau blynyddol i'w holl staff a chael cynllun datblygu ymarfer yn ei le. Mae staff arbenigol yn cael eu cefnogi i ddiweddarau eu gwybodaeth a'r sgiliau drwy gyfleoedd fel: cynadleddau cenedlaethol, dosbarthiadau meistr, dyddiau astudio a chyrsgiau byrion. Mae'r BILI yn hwyluso ystod o gyfarfodydd rhwydweithio proffesiynol a mynediad at oruchwyliaeth, ond mae angen i'r BILI asesu effeithiolrwydd y cyfarfodydd a'r cyrsiau hyn.

S11.4 Rhennir canlyniadau archwiliadau clinigol drwy'r Gweithgor CG a'u cyflwyno i'r Bwrdd, ond mae'r BILI yn dal heb ddatblygu dull o rannu'r canfyddiadau gyda'r cyhoedd. Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn rhai cyfweiliadau a phenodiadau staff. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur o'r enghreifftiau a roddwyd sut mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cyfrannu at ddiweddarau sgiliau a thechnegau.

S11.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI sef **Datblygol** ar bob lefel

Safon 12

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a) *yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b) *yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c) *yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- d) *yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol*

S12.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S12.2 Gweithiodd y BILI gyda phartneriaid i ddatblygu'r Strategaeth IGC&L ar sail angen lleol ac mae wedi penodi Cyd-gyfarwyddwr Comisiynu Integredig i sicrhau gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae angen monitro defnydd y Broses Asesu Unedig (UAP) er mwyn iddo ei sicrhau ei hun fod hyn yn digwydd.

S12.3 Rhoddodd y BILI lawer o enghreifftiau o sut mae staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i addasu i wahanol anghenion cleifion. Er enghraifft, cynhelir hyfforddiant mewn cydraddoldeb, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (PoVA), yn Neddf Galluedd Meddyliol a'r Broses Asesu Unedig (UAP). Hefyd, mae'r BILI wedi bod ynghlwm mewn datblygu'r llwybrau gofal integredig canlynol: Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD), gofal lliniarol, diabetes, iechyd meddwl a strôc. Mae'r rhain yn barhaus ac maent eto i'w gweithredu a'u gwerthuso.

S12.4 Rhoddodd staff lawer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth i ni yn ystod y grwpiau ffocws staff ond ni roddwyd tystiolaeth bod llwybrau gofal yn cael eu dangos yn nhermau budd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth er bod cleifion yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau diabetes a chlefydau'r galon lleol yn fawr.

S12.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI sef **Datblygol** ar bob lefel.

4.3 Llywodraeth Gofal Iechyd

Safon 13

Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S13.2 Mae'r BILI yn gweithredu Fframwaith Llywodraethu Ymchwil ac mae rheolaeth Ymchwil a Datblygiad yn nwylo pennaeth Llywodraethu Clinigol a'r Cyfarwyddwr Meddygol. Mae pennaeth Llywodraethu Clinigol yn adolygu prosiectau ymchwil ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn trafod a chymeradwyo pob prosiect bob chwarter. Mae'r BILI yn sicrhau bod gan bob prosiect noddwr ymchwil a'u bod wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil. Mae lefel cyfranogiad defnyddwyr mewn astudiaethau ymchwil yn cael ei wirio hefyd. Mae proses ôl-ddilysu yn cael ei gweithredu gan y Cyfarwyddwr Cyllid yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes fel rhan o restr wirio'r Fframwaith Llywodraethu Ymchwil.

S13.3 Sicrheir bod y Bwrdd yn ymwybodol o drefniadau llywodraethu ymchwil drwy'r Pwyllgor CG. Mae'r BILI yn ymwybodol fod angen iddo sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r Fframwaith Llywodraethu Ymchwil.

S13.4 Mae'r BILI wedi adolygu trefniadau llywodraethu ymchwil mewn gofal sylfaenol i sicrhau bod y BILI yn cael ei hysbysu am unrhyw ymchwil sy'n digwydd.

S13.5 Rydym yn cytuno fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S14.2 Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch ac mae'n comisiynu ymgynghorwyr iechyd a diogelwch i wneud adolygiadau rheolaidd o iechyd a diogelwch a chyflwyno argymhellion. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Risg, sy'n cael ei arolygu gan y Gweithgor Rheoli Risg. Mae'r BILI yn gweithredu cofnod risg sy'n cael ei ddiweddarau bob chwarter.

S14.3 Mae'r holl staff yn cael eu hyfforddi ac anfonir diweddariadau ar e-bost. Cynhelir asesiadau risg gan staff clinigol i adnabod materion diogelwch posib. Mae gwasanaethau a gomisiynir gan y BILI yn cael eu cefnogi gan gytundebau sy'n mynnu bod darparwyr yn bodloni lefelau statudol iechyd a diogelwch. Mae holl aelodau'r Gweithgor Risg yn cynrychioli eu cyfarwyddiaethau ac yn rhoi adborth rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm mewn perthynas ag agweddau ar reoli risg.

S14.4 Mae tîm gofal tymor hir y BILI wedi llunio holiadur cleifion sy'n cynnwys cyfeiriad at bryderon amgylcheddol ac mae wedi cymryd camau i ymdrin â phryderon diogelwch a amlygwyd mewn holiaduron cleifion a gwblhawyd.

S14.5 Rydym yn cytuno fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a) yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b) yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c) yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- d) yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S15.2 Mae'r BILI wedi gweithredu Gweithdrefn Gwyno'r GIG ac mae'n sicrhau bod ei gontractwyr annibynnol yn cydymffurfio â hyn drwy ymweliadau contract blynyddol. Mae gan y BILI Bolisi Cwynion i'w staff hefyd Mae'r Rheolwr Cwynion yn cael gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chan gontractwyr annibynnol am gwynion. Cyflwynir hyn i'r bwrdd mewn adroddiad pob chwarter. Mae'r BILI hefyd yn monitro'r defnydd o weithdrefn gwyno Ymddiriedolaeth GIG Gwent. Mae'r angen i'r BILI adnabod llwybrau eraill i ddefnyddwyr gwasanaeth godi materion neu wneud sylwadau, ac nid y broses gwyno yn unig.

S15.3 Cafodd y BILI sgôr o 78% am reoli cwynion gan Gronfa Risg Cymru. Mae staff wedi cael hyfforddiant ar ysgrifennu at y cyhoedd ac maent yn gallu defnyddio'r Llinell iaith. Mae RNID a'r Llinell iaith ar gael i gontractwyr gofal sylfaenol hefyd. Hyfforddwyd staff i ddelio â chwynion a gallant gael gafael ar swyddog cwynion i'w cefnogi. Rhoddir cyngor a chefnogaeth i gontractwyr gofal sylfaenol wrth ddelio â chwynion. Mae'r BILI yn gweithio'n agos â'r CHC ar adrodd yn ôl ar gwynion i'r defnyddwyr gwasanaeth.

S15.4 Roedd y BILI yn gallu rhoi sawl enghraifft o sut mae gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad i weithredu ar gwynion cleifion. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n gadarnhaol iawn am ansawdd y gwasanaethau a gynigir gan y BILI yn

enwedig mewn perthynas â meysydd arbenigol fel clefyd coronaidd y galon a chlefyd siwgr.

S15.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI sef **Datblygol** ar bob lefel.

Safon 16

Mae gan gyrrff gofal iechyd systemau ar waith i:

- a) nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b) adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c) dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; a*
- d) sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S16.2 Mae polisi Adrodd Digwyddiadau, Peryglon ac Achosion Niweidiol Fu Bron a Digwydd yn ei le ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am eithriadau bob tri mis mewn sesiynau caeedig o'r Bwrdd. Mae'r BILI wedi cytuno ar Weithdrefn Adrodd Digwyddiadau at y Cyd rhwng NPSA, y Byrddau Iechyd eraill yng Ngwent a'r Ymddiriedolaeth GIG. Mae Pennaeth Llywodraethu Clinigol (CG) yn gyfrifol am sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu hadrodd i NPSA, i'r Pwyllgor CG a'r Bwrdd. Mae camau gweithredol allweddol o'r hyn a ddysgwyd yn genedlaethol yn cael eu nodi gan y Pwyllgor CG, eu gweithredu gan swyddogion y BILI a rhoddir adroddiad am gynnydd i'r Bwrdd.

S16.3 Mae'r BILI yn hwyluso cyfarfodydd rhwydweithio proffesiynol ar gyfer ymarferwyr gofal sylfaenol, i ganiatáu iddynt ddysgu o ddigwyddiadau cenedlaethol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i ddysgu o ddigwyddiadau a'u bod yn derbyn adborth ar ôl cael eu hysbysu o ddigwyddiad. Mae staff BILI yn cael eu cynghori yn ystod eu rhaglen sefydlu am y gofyniad a'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau ac maent yn cael eu cefnogi gan staff CG i'w hadrodd i NPSA. Mae'r

BILI yn bwriadu ymestyn mwy o hyfforddiant i reolwyr practis a staff meddygon teulu am dechnegau dadansoddi achos a dysgu o ddigwyddiadau. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn dosbarthu rhybuddion diogelwch cleifion i gontractwyr annibynnol, cartrefi nyrsio ac Ymddiriedolaeth GIG Gwent, ond nid oes gan y BILI drefn i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu. Yn ddiweddar cynhaliodd y BILI archwiliad o ofal sylfaenol a chyhoeddi canllawiau i staff gofal sylfaenol am reolaeth rhybuddion diogelwch.

S16.4 Roedd y BILI yn gallu rhoi enghreifftiau o welliannau gwasanaeth yn deillio o ddefnyddio gwybodaeth am ddigwyddiad niweidiol. Er enghraifft, datblygodd y BILI broses ar gyfer derbyn a rheoli galwadau cleifion. Mae angen i'r BILI roi tystiolaeth o welliant mewn bodlonrwydd defnyddwyr o ganlyniad i newid y broses. Mae angen i'r BILI ystyried sut a phryd y dylai ddosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd yn dilyn digwyddiadau, i sicrhau'r cyhoedd fod camau wedi cael eu cymryd.

S16.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefel Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

Safon 17

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.

S17.1 Roedd y BILI wedi asesu ei hun i fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S17.2 Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac mae Gweithgor Amddiffyn Plant sy'n sicrhau bod y BILI yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r Grŵp hefyd yn monitro gweithrediad lleol polisïau rhanbarthol a chenedlaethol amddiffyn plant. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw dystiolaeth am effeithiolrwydd y Gweithgor hwn. Mae'r BILI yn darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant amddiffyn plant i wasanaethau meddygol a deintyddol sylfaenol a'i staff ei hun. Mae hyfforddiant i fferyllwyr a'u staff yn cael ei ddarparu gan eu corff proffesiynol. Ni

wnaeth y Bwrdd ddangos yn glir pwy yw cynrychiolwyr y BILI ar y Byrddau Lleol Diogelu Plant (LSCB).

S17.3 Ar gyfer oedolion agored i niwed, asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr.

S17.4 Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu Polisi a Gweithdrefnau PoVA De-ddwyrain Cymru. Mae'r Bwrdd hefyd wedi mabwysiadu'r ffurflen Fonitro Cydymffurfiaeth â Chontract Gofal Parhaus. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw dystiolaeth o weithredu'r gweithdrefnau hyn yn llwyddiannus. Mae'r BILI yn aelod o Bwyllgor PoVA aml-asiantaethol a rhoddwyd hyfforddiant i staff y BILI staff gan yr Awdurdod Lleol. O gofnodion AD mae'n ymddangos bod rhai aelodau staff sydd angen hyfforddiant amddiffyn plant a hyfforddiant oedolion agored i niwed arnynt heb ei dderbyn. Mae angen i'r BILI ddosbarthu'r hyfforddiant i'r holl gontractwyr gofal sylfaenol a gwerthuso ei effeithiolrwydd.

S17.5 Ni roddwyd dystiolaeth i ddangos sut y mae gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu rhaeadru i staff. Rydym yn ystyried bod angen i'r BILI gynnal archwiliad i sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn gwiriadau heddlu neu SCT llawn. Rydym yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ym mhob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 18

Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad Defnyddwyr ac yn **Ymarfer** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol

S18.2 Mae Cynllun Digwyddiadau Mawr a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i sefydlu ac mae cofrestr risg y BILI yn cyfeirio at yr angen i gynllunio ar gyfer digwyddiadau brys. Mae'r BILI yn gweithio gyda Grŵp Cynllunio Brys Gwent a

Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd. Mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Parhad Busnes sy'n amlinellu cynllun gweithredu mewn achos argyfwng. Yn ei ymateb mae'r BILI yn dweud bod adolygiad blynyddol o'r Cynllun Parhad Busnes a hyfforddiant swyddogion gweithredol y BILI eto i'w gweithredu.

S18.3 Y tro diwethaf y cymrodd y BILI ran mewn arfer argyfwng mawr oedd Mawrth 2007. Datblygwyd cynllun gweithredu o hwn, a adroddwyd i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r BILI eto i weithredu adolygiad blynyddol o'r Cynllun Parhad Busnes a dysgu o ymarfer Mawrth.

S18.4 Dim ond un enghraifft roddodd y BILI o sut y newidiwyd ymarfer oherwydd digwyddiad. Digwyddodd hyn pan wnaeth tywydd drwg y gaeaf diwethaf effeithio ar wasanaethau gofal sylfaenol gan fod staff yn methu cyrraedd eu gwaith. Yn awr mae'r BILI yn gofyn i gontractwyr gofal sylfaenol ddatblygu Cynlluniau Parhad Busnes.

S18.5 Rydym yn asesu bod y BILI yn **Ddatblygol** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a) bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b) bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c) bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli a*
- d) bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1 Roedd y BILI yn asesu ei hun yn Ddatblygol ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr.

S19.2 Mae'r BILI wedi datblygu Polisi Iechyd a Diogelwch a Pholisi Adrodd Digwyddiadau, Peryglon ac Achosion Niweidiol Fu Bron a Digwydd. Mae'r Bwrdd yn cael ei sicrhau bod darparwyr gwasanaethau meddygol yn cynnal a chadw dyfeisiadau meddygol yn briodol drwy'r contractau sector annibynnol a monitro

blynyddol y contractau hyn. Mae gan y BILI Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwent ac mae hwn yn cael ei archwilio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon hon.

S19.3 Mae Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau yn ei lle ac mae ei weithrediad yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn contractio casglu sbwriel ar ran y BILI a rhoddir adroddiadau am hyn.

S19.4 Mae gan y BILI gytundebau ag ymarferwyr gofal meddygol cychwynnol i sicrhau ei fod yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnal dyfeisiadau meddygol ac mae'r rhain yn cael eu monitro drwy'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd. Mae diheintio offer deintyddol yn cael ei fonitro gan y Gwasanaeth Cyfeirio Deintyddol a'i adrodd i'r BILI. Mae'r BILI yn ariannu amser wedi'i neilltuo i arweinwyr rhagnodi mewn meddygfeydd meddygon teulu i ledaenu arfer da ym mhob agwedd ar reoli meddyginiaethau.

S19.5 Adroddodd y BILI nad oedd wedi cael unrhyw adroddiadau o ddigwyddiadau dros y 12 mis diwethaf mewn perthynas â dyfeisiadau meddygol na diheintio. Mae'r BILI hefyd wedi datblygu deunydd marchnata ar gyfer y cyhoedd i amlygu defnydd effeithiol o'u meddyginiaethau ac mae'n dechrau annog Meddygon Teulu i gynnal Adolygiadau Defnydd Meddyginiaeth mewn gofal sylfaenol a byddai gennym ddiddordeb mewn gweld tystiolaeth o effeithiolrwydd y prosiect hwn yn y dyfodol.

S19.6 Rydym yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar bob lefel o'r sefydliad.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S20.2 Mae ymateb y BILI yn disgrifio trefn briodol sy'n dibynnu ar adolygiadau perfformiad i adnabod anghenion hyfforddi, gyda chefnogaeth cynllun hyfforddiant a datblygiad a fforymau staff rheolaidd. Mae'r BILI yn nodi bod angen iddo weithredu'r camau perthynol i'r Safon Iechyd Corfforaethol sy'n cefnogi cynnwys staff a datblygu

gwasanaeth. I sicrhau'r Bwrdd fod systemau yn eu lle i sicrhau bod rheolaeth AD yn cydymffurfio ag arfer da, mae ganddo Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r BSC sy'n cael ei fonitro gan y Tîm Gweithredol.

S20.3 Ceir enghreifftiau o welliannau a wnaed i wasanaethau, ond tystiolaeth gyfyngedig o sut y digwyddodd y rhain o ganlyniad i gynlluniau staff. Mae'r BILI yn cynnal arolygon staff i fonitro bodlondeb staff gyda'u gwaith.

S20.4 Ni roddodd y BILI dystiolaeth o'r ystod o hyfforddiant sydd ar gael i staff nac o'u heffeithiolrwydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar arfer gofal sylfaenol ac yr oedd y BILI yn gallu dangos fod y cynllun gweithredu arolwg staff yn dangos fod eu safbwyntiau'n cael eu clywed. Dywedodd staff wrthym nad oedd pob un ohonynt wedi derbyn adolygiad perfformiad na chael cynllun datblygu yn ei le. Am y rhesymau hyn, byddem yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar bob lefel.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- a) *yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b) *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c) *yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a lefel Profiad Defnyddwyr.

S21.2 Mae'r Bwrdd yn sicrhau gwiriadau cyflogaeth cadarn drwy borth recriwtio'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Mae canlyniadau pob gwiriad cyflogaeth yn cael eu hanfon i'r BILI drwy e bost. Mae'r adran AD yn y BILI yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol wedi'u cofrestru gyda'u corff rheoleiddio. Mae angen tystiolaeth arnom yn asesiad y dyfodol o sut mae hyn yn cael ei gyfathrebu i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ac mae wedi dadansoddi data monitro cyflogaeth ar gyfer ethnigrwydd.

S21.3 Mae cofrestriad proffesiynol yn cael ei wirio wrth benodi ac yn flynyddol ar ôl hynny a'i gadw ar y cofnod staff. Cedwir cronfa ddata o'r holl ymarferwyr meddygol a

deintyddol ar restr perfformwyr Torfaen. Mae'r BILI yn delio â thor-yymddygiad proffesiynol drwy drefniadau cytundebol neu drwy gyrff rheoleiddio. Mae cynrychiolaeth grwpiau staff lleiafrifol yn cael ei sicrhau gan y Pwyllgor Llywio Safonau Iechyd Corfforaethol.

S21.4 Mae'r BILI yn dilyn prosesau a chanllawiau cyflogaeth a gytunwyd yn genedlaethol i ddelio â thor-yymddygiad. Rhoddodd y BILI ddwy enghraifft o dor-yymddygiad ac mae angen dangos tystiolaeth ychwanegol o sut y dysgwyd gwersi yn dilyn y digwyddiadau. Roedd y BILI yn gallu dangos bod nifer o fecanweithiau yn eu lle i gasglu ac ymdrin â'r pynciau a godwyd gan grwpiau staff lleiafrifol. Roedd y rhain yn cynnwys arolygon staff rheolaidd, y Fforwm Staff misol, y broses adolygu perfformiad a gwaith y Pwyllgor Llywio Safonau Iechyd Corfforaethol. Rydym yn cytuno fod y BILI yn **Ddatblygol** ar bob lefel.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

- a) yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b) yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c) yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S22.2 Mae gan y BILI Bolisi Recriwtio a Dewis yn ei le sy'n sicrhau bod staff yn gymwys i gyflawni eu swydd. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn hwyluso'r broses recriwtio. Mae'r BILI wedi datblygu Strategaeth Datblygu a Hyfforddiant Sefydliadol. Mae'r Pwyllgor Hyfforddiant, Addysg a Datblygiad yn cyfarfod pob chwarter ac yn adrodd i'r Bwrdd ond ni chyflwynwyd tystiolaeth o fonitro gan y Bwrdd.

S22.3 Dywedodd y BILI y dylai pob aelod staff gael adolygiad perfformiad gan ei reolwr llinell ond mae angen i'r Bwrdd fonitro cyfraddau derbyn hyn, gan ein bod wedi nodi nad yw pob aelod o staff wedi derbyn un. Mae hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata ac mae'r nifer sy'n eu derbyn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Hyfforddiant, Addysg a Datblygiad. Mae'r BILI yn gweithio ar

Ddadansoddiad Anghenion Hyfforddiant newydd, yn unol â'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (KSF) ac amcanion corfforaethol newydd.

S22.4 Mae cyfleoedd hyfforddi yn cael eu hysbysu i staff drwy e bost ond hefyd yn cael eu trafod yn y Fforwm Staff bob mis. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn gynharach, dywedodd rhai aelodau staff wrthym nad oeddynt i gyd wedi mynychu hyfforddiant diogelu pobl agored i niwed ac nid oeddynt oll wedi derbyn adolygiad perfformiad. Am y rhesymau hyn rydym yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar bob lefel.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a) brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli; a chan*
- b) raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S23.2 Dangosodd y BILI dystiolaeth o ystod o bolisiau a gymeradwywyd gan y Bwrdd i ddelio â safonau ymddygiad yn y gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi chwythu chwiban
- Polisi Cwynion
- Polisi Recriwtio a Dewis
- Polisi Adrodd Digwyddiad Niweidiol

S23.3 Mae'r BILI hefyd yn sicrhau bod staff a gyflogir gan contractwyr annibynnol yn gallu codi pryderon ac mae'r BILI yn monitro effeithiolrwydd prosesau o'r fath drwy arolygon staff.

S23.4 Mae pecyn sefydlu'r BILI yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r broses i godi mater yn gyfrinachol ac mae cefnogaeth un i un ar gael i staff. Mae'r BILI wedi datblygu Strategaeth Cynnwys Staff ac mae cynnydd yn erbyn y camau a gymerir yn cael ei fonitro. Gwahoddir yr holl staff i fynychu Fforymau Staff ac i gyfrannu at y trafodaethau.

S23.5 Rydym wedi asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ar gyfer y safon hon er ein bod yn cydnabod eu bod yn symud mewn rhai meysydd tuag at ymarfer.

S23.6 Dywedodd staff wrthym nad oeddynt i gyd wedi derbyn adolygiad perfformiad nac wedi gweithredu cynllun datblygu. Am y rheswm hwn rydym hefyd yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a) fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b) sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, asesodd y BILI ei hun yn **Ymarfer** ac ar lefel Profiad Defnyddwyr yn **Ddatblygol**.

S24.2 Rhoddodd y BILI enghreifftiau o weithio rhyngasiantaethol, ond ni roddodd dystiolaeth i gefnogi hyn. Nid oedd y BILI yn rhoi unrhyw dystiolaeth o werthuso effeithiolrwydd gwaith ar y cyd na sut mae'n gwerthuso sgiliau ei weithlu yn erbyn anghenion gwasanaeth y dyfodol. Am y rhesymau hyn, rydym yn asesu'r sefydliad yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol.

S24.3 Rhoddodd y BILI ystod o enghreifftiau o gynlluniau ar y cyd a sefydlwyd i gyflwyno rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Strategaeth gofal canolradd at y cyd, trefniadau gweithredol a rheolaeth.
- Cyd-gyfarwyddwr ar gyfer integreiddio gwasanaeth integration rhwng y BILI a'r Awdurdod Lleol.
- Grŵp Cynllunio ar y Cyd i Blant ag Anableddau.
- Grŵp Cynllunio ar y Cyd Iechyd meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Grŵp Cynllunio a Chomisiynu Iechyd Corfforol
- Grŵp Cynllunio ar y Cyd Anableddau Dysgu.
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

S24.4 Fodd bynnag, unwaith eto ni roddwyd tystiolaeth o effeithiolrwydd y mentrau hyn. Am y rheswm hwn rydym yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Weithredol.

S24.5 Rhoddodd y BILI enghreifftiau o sut mae profiad defnyddwyr wedi gwella drwy weithredu newidiadau i brosesau gwaith gyda chydweithwyr tu allan i ofal iechyd. Er enghraifft, awgrymwyd penodiad swyddog cefnogi Gwrth-fwlio gan bobl ifanc, yn dilyn ymgynghoriad ar gyfer y Bartneriaeth Pobl Ifanc. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1 Asesodd y BILI ei hun yn Ddatblygol ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S25.2 Mae'r BILI wedi datblygu strategaethau addas ar gyfer Rheolaeth & Technoleg Gwybodaeth a rhannu gwybodaeth ac mae hefyd wedi gweithredu trefniadau llywodraethu gwybodaeth. Rhoddodd y BILI dystiolaeth i gofnodi'r ffaith fod gwybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar wasanaethau. Er enghraifft, defnyddiwyd yr Asesiad Angen i gyfrannu at y Strategaeth HSC&WB. Bellach mae angen i'r BILI fonitro effeithiolrwydd ei brosesau.

S25.3 Mae staff BILI staff yn cael eu hyfforddi yn unol â'u disgrifiadau swydd a chynlluniau datblygu personol. Mae hyfforddiant ar systemau TG yn cael ei ddarparu yn fewnol, ond hefyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Mae gan Feddygon Teulu fynediad electronig at apwyntiadau clinic un safle, i symleiddio'r broses gyfeirio.

S25.4 Delir gwybodaeth gofal sylfaenol ar systemau diogel o fewn lleoliadau meddygon teulu a rheolir hyn drwy Ddatrysiadau Iechyd Cymru (HSW) ac fe'i hadolygwyd yn ddiweddar gan Hysbysu Gofal Iechyd. Mae'r BILI yn cymryd rhan mewn trafodaethau am ansawdd gwybodaeth cleifion yng Ngrŵp Gwybodaeth Perfformiad De-ddwyrain Cymru a Fforwm Defnyddwyr Gwybodaeth Graidd De-ddwyrain Cymru.

S25.6 Am y rhesymau hyn rydym yn cytuno â hunanasesiad y BILI o fod yn **Ddatblygol** ar bob lefel.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:

- a) bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddar'u wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b) bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1 Asesodd y BILI ei hun fel un sydd yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

S26.2 Rhoddodd y BILI dystiolaeth o set gadarn o strategaethau a pholisïau sydd yn eu lle i sicrhau rheolaeth effeithiol o gofnodion. Mae contractau gyda darparwyr yn awr yn cynnwys y ddarpariaeth iddynt gynnal cofnodion da ac mae'r BILI yn monitro cydymffurfiaeth. Cynhelir asesiadau risg a llunnir cynlluniau gweithredu i gywiro perfformiad gwael.

S26.3 Mae rheolaeth cofnodion yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant sefydlu'r holl staff ac mae'r BILI wedi hyfforddi'r holl staff sy'n creu a chynnal cofnodion. Cynhaliodd y BILI archwiliad o nodiadau cleifion a sefydlwyd cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw ddiffygion. Mae'r BILI yn cynnal cronfa ddata o hyfforddiant staff a datblygwyd rhestr wirio o staff nyrsio sy'n gyfrifol am ddiogelu gwybodaeth bersonol am gleifion.

S26.4 Mae'r BILI wedi llunio Canllawiau ar gyfer Cofnodion Da a Chadw Cofnodion Da ac offeryn archwilio, sy'n canolbwyntio ar safonau allweddol o fewn polisïau cofnodion a rheoli gwybodaeth. Mae'r BILI hefyd wedi adolygu ei Bolisi Gweithio Gartref i sicrhau ei fod yn cynnwys pob agwedd ar reolaeth a diogelwch cofnodion.

S26.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ar gyfer y safon hon.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da yn eu lle sydd:

- a) yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*

- b) *yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c) *yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- d) *yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- e) *yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Asesodd y BILI ei fod **yn Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

S27.2 Rhoddodd y BILI dystiolaeth fod y Bwrdd yn monitro effeithiolrwydd strwythur y sefydliad bob blwyddyn, yn ogystal ag archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau contractwyr gofal sylfaenol, i sicrhau llywodraethu clinigol a chorfforaethol. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol ac yn monitro cynnydd a'r camau gweithredol a gymerir. Mae'r Bwrdd yn hybu bod yn agored, cywirdeb ac atebolrwydd drwy adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, sy'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd mewn sesiwn agored. Mae'r BILI wedi tynnu sylw at ei ddymuniad i wella ei fecanweithiau adrodd am risgiau ac mae'r BILI wedi penodi Cyd-gyfarwyddwr Comisiynu a Gwasanaethau Integredig ac wedi sefydlu'r Uned Gomisiynu Ranbarthol.

S27.3 Mae hyfforddiant staff yn dechrau gyda hyfforddiant sefydlu corfforaethol a chedwir staff yn gyfredol gyda threfniadau llywodraethu drwy'r Fforwm Staff a thrafodaethau 'Dysgu dros Ginio'. Mae'r holl staff ariannol yn sicrhau bod aelodau staff y BILI yn ymwybodol o'u dyletswyddau ariannol a'u hawdurdod dros gyllid. Mae'r holl staff yn cael eu datblygu'n briodol ac yn cael eu cefnogi gan Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau Agenda ar gyfer Newid. Bydd effeithiolrwydd hyn yn cael ei fonitro gan y BILI. Mae'r Gweithgor Rheoli Risg yn cynnwys cynrychiolaeth o bob Cyfarwyddiaeth ar lefel rheolwr uwch. Mae uwch reolwyr yn rhaeadru gwybodaeth am reoli risg i'w Cyfarwyddiaethau a gall aelodau staff leisio pryderon. Mae'r BILI yn sicrhau bod gwybodaeth yn llifo dwy ffordd. Roedd y BILI yn gallu rhoi enghreifftiau o sut mae staff yn gweithio ar draws y gymuned iechyd a rhwydweithiau clinigol.

S27.4 Roedd y BILI yn gallu rhoi enghreifftiau o bynciau allweddol a amlygwyd drwy drefniadau llywodraethu a arweiniodd at newidiadau mewn adrodd am risgiau. Er enghraifft, roedd y BILI drwy ymgynghori â phobl ifanc wedi nodi eu blaenoriaethau ac wedi cyfrannu at gynllunio gwasanaeth. Mae gan y BILI fforwm staff misol lle mae materion yn gallu cael eu codi gyda'r tîm gweithredol a'u trafod yn agored. Gweithredir ar risgiau penodol sy'n cael eu hadrodd gan staff ac mae hyn yn cael ei adrodd drwy'r Fforwm Staff a chyfarfodydd Cyfarwyddiaeth.

S27.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI, sef ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a) *yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b) *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c) *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr;*

S28.1 Asesodd y BILI ei hun fel un sydd yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a **Datblygol** ar gyfer lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddiwr.

S28.2 Mae gan y BILI arweinydd Llywodraethu Clinigol a Strategaeth a Chynllun Llywodraethu Clinigol wedi'i gymeradwyo. Roedd y BILI yn gallu dangos fod y Bwrdd yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac y gwneir gwelliannau. Darparwyd hyfforddiant i aelodau'r bwrdd i'w cynorthwyo yn eu rôl. Mae pob Cyfarwyddiaeth yn ymwneud ag asesu'r sefydliad yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd hyn. Am y rhesymau hyn yr ydym yn gallu cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol.

S28.3 Roedd y BILI yn gallu dangos fod trefn yn ei lle sy'n galluogi staff i gymryd rhan mewn datblygu polisiau a gweithdrefnau llywodraethu clinigol. Fodd bynnag, ni roddwyd enghreifftiau o sut mae'n monitro effeithiolrwydd trefniadau o'r fath.

S28.4 Mae staff yn 'y gyfarwyddiaeth gofal sylfaenol yn cymryd rhan yn natblygiad offeryn monitro i adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu gan gontractwyr

annibynnol.' Ar ben hynny, mae'r Gweithgor Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i wella gwasanaethau. Mae angen i'r Gweithgor ddangos fod gwasanaethau wedi gwella oherwydd eu gweithgaredd.

S28.5 Rydym yn cytuno fod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr.

4.4 Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldeb iechyd:

- a) drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b) drwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd*

S29.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** yn y tair lefel.

S29.2 Mae'r BILI wedi penodi swyddog HSC&WB a Swyddog Datblygu Iechyd Cymunedol i gefnogi cytundebau partneriaeth sydd yn dangos lefel uchel o ymrwymiad gan y Bwrdd.

S29.3 Rhoddodd y BILI dystiolaeth o flaenoriaethau cytunedig a gyrhaeddwyd drwy'r broses partneriaeth ac a ddylai ddangos cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn y dyfodol.

S29.4 Rhoddodd y BILI enghreifftiau o sut yr oedd cleifion yn dylanwadu ar y Strategaeth HSC&WB yn 2004, ond nid oedd yn gallu dangos unrhyw adolygiadau blynyddol o'r Strategaeth. Dylai'r BILI hefyd ddarparu tystiolaeth o sut mae cleifion wedi elwa o gyfrannu at y Strategaeth HSC&WB.

S29.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI, sef **Datblygol** ar bob lefel o'r sefydliad.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- a) yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac*
- b) yn ystyried yr holl bolisiâu cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1 Asesodd y BILI ei hun yn **Ddatblygol** yn y tair lefel.

S30.2 Mae nifer o fentrau yn eu lle i ymdrin â materion fel:

- Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Torfaen
- Menter Byw'n Iach Torfaen
- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Gwella maeth
- Tîm Cymunedol Diabetes
- Tîm Clefyd Coronaidd y Galon

S30.3 Fodd bynnag, tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael i ddangos fod agwedd systematig tuag at atal clefydau wedi'u sefydlu. Mae cynllun gwella Safonau Gofal Iechyd y BILI yn nodi sut i ddatblygu monitro a gwelliant parhaus yn y maes hwn. Am y rheswm hwn, byddem yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol.

S30.4 Mae tystiolaeth a roddir gan y BILI yn cyfeirio at Gynllun Oes a Her Iechyd Cymru, ond nid oes fawr o dystiolaeth i ddangos fod eu hegwyddorion penodol yn cael eu trin a'u trafod. Mae'r dystiolaeth a roddir yn canolbwyntio ar strategaeth a chynllun gweithredu sydd yn dangos fod camau yn cael eu cymryd, ond dylai'r BILI hefyd ddangos tystiolaeth o fonitro'r camau hyn.

S30.5 Rhoddodd y BILI enghreifftiau o ddylanwad cleifion a'r cyhoedd mewn rheoli atal clefydau a rhaglenni gwella iechyd. Mae'r BILI angen dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwasanaethau hunanreoli yn yr asesiad nesaf.

S30.6 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI, sef **Datblygol** ar gyfer pob lefel mewn perthynas â'r safon hon.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- a) yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b) yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldeb iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c) yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac*
- d) yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1 Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1 Ar bob lefel asesu, roedd y BILL yn disgrifio ei hun fel un sy'n **Ymarfer**, ac mae AGIC yn cytuno â'r asesiad hwn. Mae'r BILL wedi ennill y Safon Iechyd Corfforaethol Aur ar ddau achlysur.

Gellir gweld crynodeb o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon fel yr aseswyd hwy gan Dorfaen drwy ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn eu profi a'u gwerthuso yn Atodiad 2.

5. Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i BILI Torfaen gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynlluniau hyn gan Swyddfeydd Rhanbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro gweithrediad fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer GIG Cymru. Bydd hwn ar gael ar wefan y BILI.

5.2. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella'r dull asesu a'i wneud yn fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol ac alinio'r broses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd gyda'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd hwn yn integreiddio canfyddiadau adroddiadau unigol i orolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru. Bydd hwn yn pwysleisio'r themâu allweddol a meysydd risg a amlygwyd gan broses asesu'r Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â hwy ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Mae cydnabyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

Crynodeb o lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safonau

Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 2

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 3

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 4

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 5

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 6

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 7

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 8

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 9

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	L
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	L
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	L

Safon 10

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 11

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 12

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 13

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 14

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 15

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 16

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 17

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 18

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 19

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 20

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 21

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 22

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 23

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 24

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 25

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 26

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 27

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 28

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 29

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D



Safon 31

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	AMHERTHNASOL		
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	AMHERTHNASOL		
Profiad y Defnyddiwr	AMHERTHNASOL		


Safon 32

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (mwy/llai)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

**Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol,
Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr**



Cytuno/Anghytuno â Sgor BILI



Rhestr o'r Termau Allweddol

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – yn darparu cyngor i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n cynnig model y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u troi'n gamau gweithredu. Mae'n cynorthwyo gwelliant parhaus i berfformiad sefydliadol.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd y broses o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – set o gamau trin a gofal a ddiffiniwyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion penodol pob claf.

archwiliad clinigol – gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso a mesur pa mor dda maent yn bodloni safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaethau.

llywodraethu clinigol – fframwaith sy'n gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus a diogelu safonau uchel o ofal.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymuned - sefydliadau dielw, hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi cymunedol. Sefydlwyd y Cynghorau ym 1992 er mwyn cynyddu cyfraniad y gymuned at y broses o ddiffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Mae'r Cynghorau'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i gael eu hymgyngori ar newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

Swyddfa Cofnodion Troseddol - asiantaeth weithredol a sefydlwyd i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa'n cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n golygu cysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

diogelu data – gofyniad i gyrrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Mae cyfrifoldebau o'r fath yn ddyletswyddau dan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, sydd â'r nod o ddiogel data sydd gan sefydliadu ar unigolion.

Cynllun Oes - yn nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n sefydlu strategaeth 10 mlynedd i'w gwireddu. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn para tua thair blynedd. Maent yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Darparu Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau ymhlith y Gorau yn y Byd.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon o ansawdd ym mhob lleoliad iechyd.

rheoli heintiau – set o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer diheintiedig ac ati.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Ymddiriedolaethau'n cyflogi pob math o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, yn cynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawdriniaeth mewn ysbytai fel rheol. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, yn y gymuned fel rheol, ee nyrsys ardal, ciropodyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfunol yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaethau cymunedol ac aciwt dan un bwrdd rheoli.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad i gyd i roi adroddiadau am gamgymeriadau sy'n effeithio ar ddiogelwch claf ac, yn bwysicach, i ddysgu o'r camgymeriadau hyn

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion - yn darparu pob math o wasanaeth iechyd cyhoeddus gyda'r nod o: wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau iechyd cyfredol a newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a; chyfrannu ar wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o afiechyd a salwch.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd – strategaeth a gynlluniwyd i sicrhau yr ystyrir sylwadau a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol y Coleg Nyrsio Brenhinol - rhaglen sy'n neilltuo amser i nyrsys arsylwi gofal a'r ddarpariaeth o wasanaethau, a chyfweld â chleifion am y ddarpariaeth o ofal. Bwriad y rhaglen yw galluogi nyrsys i ddatblygu eu galluoedd arwain a'u gwneud yn fwy effeithiol, gwella sgiliau tîm a sefydliadol a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

Datganiadau o Reolaeth Fewnol - datganiad ar drefniadau corff cyffredinol y GIG ar gyfer sicrhau bod y prif beryglon mewn sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth -grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y statud am wneud penderfyniadau mawr am strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel rheol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pump o aelodau lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Cronfa Risg Cymru - cydgynllun hunan-sicrhau ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau a nodwyd.